Home Office

Kevin Foster AS
Gweinidog dros Ffiniau'r
Dyfodol a Mewnfudo

2 Marsham Street
Llundain SW1P 4DF
www.gov.uk/home-office

David Rees, Aelod o'r Senedd
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16.03.2021

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Chwefror ynghylch diwedd y rhyddid i symud i'r DU ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Rydym wedi pwysleisio tro ar ôl tro mai dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU yw ein ffrindiau, ein teulu a'n cymdogion ac rydym am iddynt aros. Mae Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) yn ei gwneud yn hawdd i ddinasyddion yr UE a'u haelodau teuluol gael y statws mewnfudo sydd ei angen arnynt yn y DU er mwyn aros yma'n barhaol, gyda'r un hawliau i weithio, astudio a chael gafael ar fudd-daliadau a gwasanaethau ag yr oedd ganddynt cyn i ni adael yr UE.

Rydym wedi parhau i dderbyn a phrosesu miloedd o geisiadau bob dydd drwy gydol pandemig COVID-19. Mae'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd hyd at 31 Ionawr 2021 yn dangos bod dros 5 miliwn o geisiadau i'r EUSS wedi dod i law, gan gynnwys 83,800 o Gymru, a rhoddwyd statws i dros 4.5 miliwn o geisiadau. O ystyried hyn, ni fyddwn yn newid y dyddiad cau o 30 Mehefin 2021 ar gyfer yr EUSS.

Mae'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer EUSS ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/collections/eu-settlement-scheme-statistics.

Mae canllawiau wedi'u cyhoeddi i ymgeiswyr EUSS ar effaith COVID-19 ar gael yn:

https://www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-eu-settlement-scheme-guidance-for-applicants.

Yn unol â'r Cytundeb Ymadael, mae Llywodraeth y DU wedi nodi'n glir, lle mae gan unigolyn sail resymol dros fethu'r dyddiad cau 30 Mehefin 2021 ar gyfer ceisiadau i'r EUSS gan ddinasyddion yr UE a'u haelodau teuluol sy'n byw yn y DU erbyn diwedd y cyfnod pontio, y bydd yn cael cyfle arall i wneud cais.

Bydd enghreifftiau o sail resymol o'r fath yn cynnwys plant y mae eu rhiant, eu gwarcheidwad neu eu hawdurdod lleol yn methu â gwneud cais ar eu rhan, y rheini sydd mewn perthynas â rhywun sy'n eu rheoli neu'n eu cam-drin, sy'n cael eu hatal rhag ymgeisio a'r sawl nad oes

ganddynt y gallu corfforol neu feddyliol i ymgeisio. Bydd hyn yn sicrhau bod unigolion sy’n methu’r dyddiad cau heb unrhyw fai arnynt hwy eu hunain yn dal yn gallu cael statws.

Bydd canllawiau anghyflawn yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol agos ar yr hyn sy’n cael ei ystyried yn sail resymol o’r fath. Bydd hyn yn sail i ddull hyblyg a phragmatig ar gyfer ystyried ceisiadau hwyr o dan y cynllun, gan ystyried amgylchiadau pob achos, yn hytrach na cheisio cyfateb i faen prawf penodol. Am y tro, rydym yn dal i ganolbwyntio ar annog y rheini sy’n gymwys i gael EUSS i wneud cais erbyn 30 Mehefin 2021 ac ar dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i’r rheini sydd ei angen, gan gynnwys yn y Gymraeg ac mewn ieithoedd Ewropeaidd cyffredin eraill.

Rydym wedi gweithio’n helaeth i hybu ymwybyddiaeth o’r Cynllun. Mae’r Swyddfa Gartref eisoes wedi gwario £4.6 miliwn ar ymgyrchoedd marchnata i annog dinasyddion yr UE a’u haelodau teuluol sydd heb wneud cais eto, i wneud hynny. Rydym bellach wedi lansio ton newydd o hysbysebion gwerth £1.5 miliwn ledled y DU, i sicrhau bod dinasyddion yr UE a’u haelodau teuluol yn ymwybodol o’r dyddiad cau ac yn gwybod bod angen iddynt wneud cais. Rydym hefyd yn gweithio’n agos gyda chyflogwyr, awdurdodau lleol ac elusennau i godi ymwybyddiaeth.

Rydym eisoes wedi dyfarnu £17 miliwn o gyllid i rwydwaith presennol o 72 o sefydliadau ledled y DU. Mae'r arian hwn wedi cael ei ddefnyddio i sicrhau bod gwybodaeth a chymorth pwysig yn cyrraedd y rheini sydd fwyaf anodd eu cyrraedd fel bod neb yn cael ei adael ar ôl. Mae’r sefydliadau hyn eisoes wedi helpu dros 250,000 o bobl sy’n agored i niwed i wneud cais i’r EUSS.

Ar ben hynny, ar 11 Chwefror, fe wnaethom gyhoeddi bod £4.5 miliwn arall ar gael i'r Rhwydwaith a Ariennir gan Grant er mwyn iddo allu parhau i ddarparu amrywiaeth eang o gymorth amhrisiadwy ledled y DU, gan gynnwys ar ôl y dyddiad cau o 30 Mehefin, gan sicrhau bod y rheini sydd fwyaf mewn perygl yn parhau i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae rhestr o’r sefydliadau, gan gynnwys y rheini yng Nghymru, ar gael yn:

www.gov.uk/government/publications/eu-settlement-scheme-community-support-for-vulnerable-citizens/list-of-organisations.

Yn wahanol i genhedlaeth Windrush, y rhoddwyd statws mewnfudo iddynt yn awtomatig gan Ddeddf Seneddol ond heb unrhyw gofnod ohono, bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus o dan EUSS dystiolaeth gadarn o’u statws. Byddant yn cael hysbysiad ysgrifenedig yn nodi eu statws mewnfudo, y gallant ei gadw ar gyfer eu cofnodion eu hunain, ond rhoddir eu statws ar ffurf ddigidol ddiogel. Mae hyn yn golygu na ellir ei golli, ei ddwyn neu ymyrryd ag ef a gall dinasyddion yr UE ganiatáu i drydydd parti, fel cyflogwr neu landlord, gael mynediad diogel, o fewn cyfnod cyfyngedig, at eu statws digidol i gadarnhau gwybodaeth berthnasol am eu hawliau.

Mae’r dull hwn yn rhan o broses ehangach o ddatblygu system ffiniau a mewnfudo sy’n ‘ddigidol yn bennaf’. Bydd cynnyrch ffisegol a phapur yn cael eu disodli fwyfwy gan wasanaethau ar-lein a digidol hygyrch, sy’n hawdd eu defnyddio, felly nid oes gennym unrhyw gynlluniau i’w newid drwy ddarparu prawf ffisegol o statws EUSS dinasyddion yr UE.

Rydym yn cydnabod bod symud oddi wrth ddogfennau ffisegol at statws digidol yn newid a allai gymryd amser i unigolion a darparwyr gwasanaethau ddod i arfer ag ef. Dyna pam ei fod yn cael ei gyflwyno’n raddol a gyda chefnogaeth i helpu unigolion i ddefnyddio eu statws newydd. Rydym hefyd yn dysgu o brofiad gwledydd fel Awstralia lle mae systemau digidol llawn eisoes yn gweithio’n llwyddiannus.

Mae statws digidol hefyd yn caniatáu i wasanaethau cyhoeddus allweddol gynnal archwiliadau statws awtomatig, gan ei gwneud yn haws i bobl gael gafael ar y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn

mewn perthynas â meysydd cyfrifoldeb datganoledig.

Fel mesur pontio, gall dinasyddion yr UE barhau i ddefnyddio eu pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol fel tystiolaeth o statws o ran cael gafael ar fudd-daliadau a gwasanaethau tan 30 Mehefin 2021.

Gyda phob dymuniad da.

Yn gywir,



**Kevin Foster AS**
**Gweinidog dros Ffiniau'r Dyfodol a Mewnfudo**